## Datganiad Cyfathrebu Datblygu'r Gweithlu 2023-24

Rhoddir gwybodaeth i'n budd-ddeiliaid/partneriaid am bob cwrs hyfforddi sy'n ymwneud â'r holl gymwysterau perthnasol, Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r rhai sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Rhennir yr wybodaeth hon drwy ddefnyddio cyfeirlyfr hyfforddiant blynyddol (yn electronig) a thrwy Gynllun Hyfforddi a chronfa ddata Hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Caiff testunau hyfforddi a dyddiadau ychwanegol eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn a bydd manylion yn cael eu hanfon dros e-bost pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr pan fydd eu llefydd wedi'u cadarnhau neu pan na ellir cymeradwyo cais.

Mae'r Cyfeirlyfr a'r Cynllun Hyfforddi ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint gyda manylion yr holl gyrsiau a sut i wneud cais amdanyn nhw, ynghyd â ffurflen gais allanol wedi'i darparu ganwdt@flintshire.gov.uk

Mae pob cwrs ar gael yn ddi-dâl i'r holl fudd-ddeiliaid yn Sir y Fflint. Mae gan y Cyngor yr hawl i godi tâl am beidio â mynychu, yn unol â'n polisi codi tâl.

Yn unol â'r Strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Deddf y Gymraeg, byddwn bob amser yn ceisio dilyn yr egwyddorion canlynol ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd a gwybodaeth a gyhoeddir ar wefan Sir y Fflint:

- Wrth ddatblygu taflenni gwybodaeth am y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig, rydym wedi ymrwymo i egwyddorion iaith syml a hygyrchedd yr wybodaeth. Byddwn yn cynhyrchu ein gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) lle bo hynny'n bosibl ac mewn ieithoedd a fformatau eraill yn ôl y gofyn, yn unol â safonau corfforaethol ac arfer da derbyniol.

- Mae tudalennau'r Cyfryngau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth fanwl am ein gwasanaethau ac yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd gyfathrebu gyda'n gwasanaethau ar-lein. Rydym hefyd yn rhoi dolenni i'ch cyfeirio at adnoddau defnyddiol eraill ar-lein a gwefannau ein partneriaid.

- Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth newydd i'r cyhoedd lle bo hynny'n briodol.

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr rheolaidd i drafod cyfleoedd hyfforddi a datblygu staff sydd ar gael, nodi bylchau a phroblemau gyda'r trefniadau presennol a'u datrys lle bo hynny'n bosibl, a chanfod ac ymateb i anghenion hyfforddi sy'n codi drwy'r gwasanaeth.

Mae'r canlynol yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr:

- Darparwyr o'r Sector Annibynnol
- Darparwyr Gofal i Oedolion
- Darparwyr Gofal Cartref
- Darparwyr Gofal i Blant
- Tîm Datblygu'r Gweithlu CSyFf
- Tîm Monitro Contractau CSyFf
- Uwch Reolwr – Diogelu a Chomisiynu

Mae rhestr o fudd-ddeiliaid ar gael isod ac yn cynnwys:

- Pob cartref gofal cofrestredig, annibynnol a darparwyr gofal yn y cartref yn Sir y Fflint
- Yr holl gartrefi plant, asiantaethau maethu a mabwysiadu cofrestredig yn Sir y Fflint
- Cynrychiolir addysg uwch a phellach gan Brifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Phrifysgol Bangor.

Yn ogystal â'r budd-ddeiliaid hyn, mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys:

- Sefydliadau gwirfoddol annibynnol sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol neu weithwyr cymdeithasol
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Cymunedau am Waith / y Ganolfan Byd Gwaith
- Blynyddoedd Cynnar drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint
- Cymorthyddion Personol sy'n darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth
- Darparwyr heb eu rheoleiddio sy'n darparu cyngor a chymorth lefel is, e.e. Gofalwyr Micro
- Gofalwyr sy'n derbyn tâl a gofalwyr di-dâl

Ceisir safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr drwy ystod o fforymau sy'n bodoli eisoes.